# DAVIES, WILLIAM ('Mynorydd '; 1826 - 1901), cerflunydd a cherddor

**Enw:** William Davies
**Ffugenw:** Mynorydd
**Dyddiad geni:** 1826
**Dyddiad marw:** 1901
**Plentyn:** Dilys Lloyd Glynne Jones (née Davies)
**Plentyn:** Mary Davies (née Davies)
**Rhiant:** Moses Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerflunydd a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Cerddoriaeth
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Glebeland, Merthyr Tydfil, 26 Ionawr 1826, mab Moses Davies (1799 - 1866). Yn 16 oed aeth i stiwdio Behnes yn Llundain; bu'n gweithio hefyd gyda cherflunwyr eraill, a bu'n astudio cerddoriaeth a llenyddiaeth yr un pryd. Ysgrifennodd ar hanes cerddorion Cymreig Llundain i *Kelt* Llundain a chyhoeddwyd yr hanes yn ddiweddarach yn *Y Cerddor*, 1895. Pan oedd yn ddyn ieuanc bu'n mynychu dosbarthiadau canu a gynhelid gan John Thomas ('Ieuan Ddu'), Trefforest, Sir Forgannwg. Daeth yn arweinydd y ' Welsh Choral Society ' ar ôl Dan Jones. Dangoswyd peth o'i waith fel cerflunydd tua deugain o weithiau yn y Royal Academy; gwnaeth gerfluniau o bregethwyr Cymreig, etc. - cerflun Thomas Charles ' o'r Bala,' sydd o flaen capel Methodistiaid Calfinaidd y Bala, yn eu plith. Bu farw 22 Medi 1901 a chladdwyd ef yng nghladdfa West Hampstead. Merch iddo oedd Mary Davies, cantores.

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Mardy Rees**, (1871 - 1953)

## Ffynonellau


Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 33961191

Wikidata: Q19368760


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu